Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (Gradd 7)

Parhaol

## Pecyn Gwybodaeth

**Dyddiad cau: 10.00am – Dydd Mawrth, 6 Mehefin 2023**

## Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3
Pam gweithio i Estyn? .......... 4
Amrywiaeth a Chynhwysiant .......... 4
Gweithio'n Glyfar .......... 4
Am bwy rydym ni'n chwilio .......... 5
Manyleb yr Unigolyn .......... 8
Amdanom ni – Ein gwaith, ein gwerthoedd .......... 10
Buddion ymuno ag Estyn .......... 11
Ymgeisiwch nawr! .......... 13
Proses ddethol a dyddiadau allweddol .......... 14
Ymholiadau Pellach .......... 15

**Lawrlwythwch y pecyn hwn yn Saesneg ar ein gwefan neu e-bostiwch** recriwtio@estyn.llyw.cymru **i gael copi**

# Cyflwyniad



Diolch am ddangos diddordeb mewn gweithio i Estyn.

Mae'n adeg gyffrous i ymuno â ni. Rydym yn cynorthwyo ysgolion a darparwyr eraill i ddiwygio addysg yng Nghymru, gan gynnwys y cwricwlwm newydd, ac yn newid y ffordd rydym yn arolygu. Rydym yn chwarae rhan hanfodol mewn gwella dysgu i bobl ifanc ac oedolion yng Nghymru. Mae dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ein pobl wedi ymrwymo i gydweithio i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n rhanddeiliaid, sy'n cynnig atebolrwydd cyhoeddus ac yn cefnogi gwelliant.

Rydym yn chwilio am Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, i ymestyn proffil ac enw da Estyn trwy wneud ein gwaith yn fwy hygyrch. Helpwch ni i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yng Nghymru'n cael ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant maent yn ei haeddu.

Fel pennaeth y tîm, byddwch yn arwain ac yn rheoli pob agwedd ar gyfathrebu, digwyddiadau, ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid. Byddwch chi'n gyfrifol am yr holl weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu allanol a mewnol, ac am gyflwyno ein rhaglen eang ac amrywiol o ddigwyddiadau.

Ymunwch â ni a byddwch yn cael eich trochi mewn sefydliad blaengar ac esblygol ble byddwch yn cael cyfle i ddatblygu'ch medrau a'ch gyrfa yn y Gwasanaeth Sifil ehangach.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys mwy o fanylion am weithio gyda ni, gwybodaeth am y rôl, a manylion ar sut i wneud cais. Hefyd, rydym wedi creu Dogfen Arweiniad gyda gwybodaeth am y broses ddewis, a chynghorion i'ch helpu i gwblhau eich cais. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.



**Mererid Wyn Williams**
**Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Arolygu a Gwasanaethau Canolog)**

# Pam gweithio i Estyn?

Mae Estyn yn lle gwych i weithio, a'n pobl yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr.

Rydym yn gwerthfawrogi aelodau'n tîm, yn gwrando arnynt ac yn eu hannog i ddatblygu eu medrau a'u talentau. Fel aelod o'n tîm, byddwch yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau gwerthfawr i datblygu'ch gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu unigol, dysgu mewn tîm, dysgu proffesiynol a dysgu sefydliadol, a datblygiad parhaus. Fel Gwas Sifil, bydd amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i chi ar draws y Gwasanaeth Sifil.

Pan fyddwch chi'n ymuno ag Estyn, byddwch yn cael eich cefnogi gan rwydwaith o fewn eich tîm, ac ar draws y sefydliad. Byddwch chi'n cael cyfnod ymsefydlu cynhwysfawr ar gyfer eich rôl, a sut mae hyn yn cyd-fynd â gweddill y sefydliad.

# Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant – cynnwys pawb, gwerthfawrogi, parchu a chroesawu heriau syniadau, barn a phrofiadau bywyd amrywiol yn gadarnhaol. Rydym eisiau adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a gwella'r drefn o ran gwneud penderfyniadau.

Rydym yn cydnabod bod pawb yn dod â sgiliau a phrofiad gwahanol i'n sefydliad, a'r amrywiaeth hon sy'n sicrhau bod ein sefydliad mor gryf. Rydym yn annog ceisiadau o'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gefndiroedd, diwylliannau a phrofiadau. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o gefndir ethnig lleiafrifol, yn arbennig, yn ogystal â phobl sy'n byw ag anabledd.

# Gweithio'n Glyfar

Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio i annog Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar sut rydych chi'n defnyddio eich amser, a ble a sut rydych chi'n gweithio, i ddiwallu anghenion busnes yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol. Mae ein timau Gwasanaethau Canolog yn gweithio mewn swyddfa yn gontractiol, ond rydym yn gweithredu trefniadau gweithio hybrid anffurfiol lle gallwch rannu'ch amser gweithio rhwng ein swyddfa yng Nghaerdydd a gweithio o bell yn amodol ar anghenion busnes a chytundeb â'ch rheolwr llinell.

# Am bwy rydym ni'n chwilio

Bydd y Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth gref o bob agwedd ar gyfathrebu, digwyddiadau ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, i sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel i gefnogi amcanion strategol Estyn, ac yn mynychu uwch bwyllgorau a grwpiau.

Mae'r Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn gosod y cyfeiriad, yn ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol, ac yn arwain ac yn datblygu timau i gyflwyno cynnwys a gwasanaethau sy'n ymestyn proffil ac enw da Estyn trwy wneud ein gwaith yn fwy hygyrch. Byddwch chi'n gyfrifol am ddarparu gweithgareddau cyfathrebu o ansawdd uchel ac ymgysylltu allanol a mewnol. Byddwch chi hefyd yn gyfrifol am gyflwyno ein rhaglen eang ac amrywiol o ddigwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau hyfforddi ar gyfer ein gweithlu arolygu allanol.

Byddwch chi'n rheolwr llinell uniongyrchol ar 2 Reolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid (Rhannu swydd) a byddwch yn gyfrifol am ansawdd gwaith tîm o ryw 8 i 10 o bobl.

Byddwch yn:

- Darparu arweinyddiaeth gydweithredol gref i ddatblygu a gweithredu strategaethau cyfathrebu arloesol sy'n bodloni amcanion corfforaethol Estyn, gan gynnwys strategaeth gyfathrebu fewnol ac allanol a chynllun blynyddol ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Arwain ar gyflwyno cyfathrebu sy'n cefnogi datblygu fframwaith arolygu 2024 Estyn.
- Arwain ar gyflwyno ein rhaglen eang ac amrywiol o ddigwyddiadau sy'n amrywio o ddigwyddiadau darlledu byw i hyfforddiant ar gyfer ein gweithlu arolygu allanol.
- Rheoli a chefnogi'r Rheolwr / Rheolwyr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a goruchwylio'r tîm Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid cyfan.
- Adolygu strategaethau cyfathrebu i sicrhau integreiddio ar draws pob sianel a nodi unrhyw fylchau.
- Gosod tôn a brandio corfforaethol ar gyfer yr holl ohebiaeth a digwyddiadau.
- Sicrhau bod y tîm Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn meddu ar adnoddau a medrau priodol i gyflwyno cynlluniau a digwyddiadau cyfathrebu cytunedig yn effeithiol.
- Deall y tirlun gwleidyddol ac addysgol yng Nghymru a thu hwnt a'i berthynas ag amcanion strategol Estyn; bwydo'r wybodaeth hon i gynlluniau'r cyfryngau.
- Arwain ar gynllunio, cyflwyno a gwerthuso cyfathrebu ac ymgyrchu i sicrhau bod gwaith Estyn yn cael yr effaith fwyaf ar draws yr holl randdeiliaid.
- Datblygu cysylltiadau cadarnhaol â chyfryngau allweddol.

- Gyrru cynlluniau gweithgarwch cyfathrebu blynyddol a mapio rhanddeiliaid.
- Cynorthwyo uwch gydweithwyr i greu cynnwys ar gyfer areithiau, cyflwyniadau ac ymddangosiadau cyhoeddus eraill.

Byddwch:

- yn mwynhau bod yn greadigol
- yn gallu cymell eich hun ac yn drefnus iawn
- yn hyblyg, yn wydn ac yn gallu addasu yn wyneb galwadau gwahanol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd brys
- yn gallu blaenoriaethu a rheoli blaenoriaethau sy'n newid i chi'ch hun ac i'r tîm
- yn benderfynwr hyderus ac effeithiol sy'n gallu pennu cyfeiriad
- yn meddu ar fedrau gwerthuso cryf
- bod â'r gallu i ysgogi a heriau pobl eraill i wella ansawdd
- yn mwynhau her baich gwaith amrywiol
- yn gyfathrebwr hyderus, yn gallu gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl
- yn meddu ar safonau uchel ac yn anelu at ragoriaeth

Mae ein pobl yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Efallai eich bod yn chwilio am her newydd,  wedi gweithio mewn sefydliad mawr neu fach, mewn amgylchedd Cymraeg neu ddwyieithog, yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Byddwch wedi arfer delio ag amrywiaeth eang o bobl, yn fewnol ac yn allanol, ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm cefnogol.  Byddwch yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu a fydd yn eich helpu i ddatblygu'ch medrau a'ch gyrfa.

Efallai daw mwy o swyddi gwag ar gael yn y dyfodol. Os bydd mwy o ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf na'r nifer sydd ei angen arnom ar hyn o bryd, efallai y byddwn yn creu rhestr wrth gefn. Efallai y byddwn yn defnyddio unrhyw restr wrth gefn i lenwi rolau tebyg yn y dyfodol.

**Teitl y Swydd:** Pennaeth Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**Hyd:** Parhaol

**Cyflog:** £53,440 – £63,900 (Sylwer y bydd cyflog cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnig ar ran isaf y band)

**Y Gymraeg:** Rydym yn gweithio yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, ac mae llawer o'n rhanddeiliaid yn ddwyieithog. Mae medrau Cymraeg (ysgrifenedig a llafar) yn **ddymunol** ar gyfer y swydd hon. Byddwn yn darparu hyfforddiant i bawb sydd am ddatblygu'u medrau Cymraeg.

**Lleoliad:** Mae'r rôl wedi'i lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd: Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Rydym yn gweithredu trefniadau gweithio hybrid anffurfiol ar hyn o bryd, yn amodol ar anghenion y busnes a chytundeb eich rheolwr. Bydd disgwyl i chi fynychu'r swyddfa rywfaint o'r amser i alluogi cymorth a datblygiad parhaus a'ch galluogi i gydweithio â'ch cydweithwyr. Ni ellir gweithio yn y rôl hon dramor; dim ond yn y Deyrnas Unedig.

**Oriau gwaith a gweithio hyblyg:** Mae hon yn swydd amser llawn. Yr oriau amser llawn yw 37 awr, 5 diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener), ac eithrio breaks.

Rydym yn croesawu ceisiadau i weithio'n rhannu swydd neu ar sail hyblyg arall a fydd yn golygu bod y rôl hon yn cael ei chyflawni ar sail amser llawn. Os hoffech wneud cais i weithio'n hyblyg, dylech gynnwys datganiad yn eich cais yn amlinellu'r hyblygrwydd/patrwm dewisol yr hoffech i ni ei ystyried a'r rhesymau am eich cais. Byddwn yn ystyried eich cais a'n gofynion gweithredol yn unol â'n Polisi Gweithio Hyblyg.

**Cenedligrwydd:** I fod yn gymwys ar gyfer y rolau hyn, rhaid i chi fodloni'r gofynion cenedligrwydd a amlinellir yn ein Arweiniad i Ymgeiswyr

# Manyleb yr Unigolyn

**Meini prawf yn benodol i swydd**

Mae’n hanfodol eich bod:

- yn meddu ar brofiad o ddatblygu strategaethau cyfathrebu a chysoni nodau tîm a nodau sefydliadol
- yn meddu ar brofiad o reoli timau, gan gynnwys dealltwriaeth glir o egwyddorion rheoli tîm, yn cynnwys rheoli newid
- yn dangos gwybodaeth gadarn am arferion gorau o ran cyfathrebu mewnol a’ch bod yn defnyddio’r arbenigedd hwn i roi argymhellion i arweinwyr sefydliadol/busnes ar gyfleu agenda’r busnes/yr agenda newid
- yn meddu ar brofiad o arwain a datblygu strategaethau cyfathrebu integredig
- yn meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig ac yn gallu addasu’ch arddull ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a sianeli, gyda sgiliau golygu cadarn.
- yn gallu cyfathrebu’n effeithiol ac yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da i arwain, symbylu ac ysbrydoli cydweithwyr i wella’r modd y maent yn cyflwyno gwasanaeth
- yn gallu gosod cyfeiriad trwy wneud penderfyniadau effeithiol
- yn meddu ar fedrau rheoli amser a blaenoriaethu rhagorol er mwyn rheoli gweithgareddau lluosog
- yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da sy’n eich galluogi i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol, a herio, darbwyllo a dylanwadu ar uwch reolwyr a rhanddeiliaid eraill yn adeiladol
- yn gallu cynnal effeithiolrwydd personol yn wyneb pwysau, rhwystrau neu wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol).

Mae’n ddymunol eich bod:

- yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar) neu’n fodlon dysgu Cymraeg
- ddealltwriaeth o frandio a chydymffurfio â brand
- profiad o reoli digwyddiadau ar draws amrywiol fformatau

**Ymddygiadau allweddol**

Dyma’r ymddygiadau allweddol ar gyfer y rôl hon:

- Gweld y darlun mawr

- Newid a gwella
- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu a dylanwadu
- Gwneud penderfyniadau effeithiol

Ceir mwy o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn yn y Proffiliau Llwyddiant – Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil ar Lefel 4 - Gradd 7 a 6 a Fframwaith Cymhwysedd Proffesiynol y Llywodraeth ar Gyfathrebu ar Lefel 4.
.

# Amdanom ni – Ein gwaith, ein gwerthoedd

Ni yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr yng Nghymru. Un o'n rolau allweddol yw arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru i roi sicrwydd i'r cyhoedd a'r llywodraeth ynghylch safonau addysgol. Rydym yn helpu darparwyr addysg, fel ysgolion a cholegau, i wella ansawdd a deilliannau. Rydym hefyd yn cynghori Llywodraeth Cymru ar bolisi addysgol ac yn paratoi adroddiadau ar ystod eang o faterion a themâu addysgol.

## Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

## Hamcanion strategol

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn. Gellir cael mwy o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni.

Fel Gweision Sifil, rydym yn fodelu'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r safonau a amlinellir yn Natganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil a Chod y Gwasanaeth Sifil.

# Buddion ymuno ag Estyn

Yn ychwanegol at gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, boddhad swydd, diwylliant cefnogol, cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus a datblygiad proffesiynol, gallwch ddisgwyl buddion eraill hefyd, yn cynnwys y canlynol:

**Cyflog cystadleuol** – Yr ystod cyflog yw £53,440 - £63,900. Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer ar bwynt cyntaf y raddfa uwchlaw eich cyflog presennol (o fewn yr ystod hon). Gallwch weld graddfa gyflog lawn Gradd 7 ar ein gwefan. Gyda dilyniant cynyddol, byddwch chi fel arfer yn cyrraedd uchafswm y raddfa gyflog o fewn tair blynedd o ymuno â ni

**Hawl hael i wyliau** – 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus / braint bob blwyddyn. Rhoddir gwyliau blynyddol ar sail pro-rata ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae rhagor o opsiynau gwyliau â thâl / heb dâl ar gael i'r rheiny i helpu cyfuno gwaith ag ymrwymiadau a chyfrifoldebau eraill mewn bywyd (e.e. seibiant gyrfa, absenoldeb tosturiol, maethu a mabwysiadu, ac ati), yn amodol ar anghenion busnes

**Gweithio hyblyg** – Ein horiau gwaith arferol yw 37 awr dros wythnos 5 diwrnod (dydd Llun i ddydd Gwener), ac eithrio egwylion. Yn ogystal â'ch hawl i ofyn am gael gweithio'n hyblyg, byddwch chi'n elwa ar ein cynllun oriau gweithio hyblyg i helpu rheoli eich cydbwysedd o ran gwaith / bywyd

**Pensiwn rhagorol** – Dewiswch o gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig gydag Estyn yn cyfrannu hyd at 27.9% o'ch cyflog neu drefniant cyfraniad diffiniedig. Rydym yn rhan o *Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil*. Os ydych chi eisoes mewn Cynllun Pensiwn, gallwch chi rewi hyn neu'i drosglwyddo i *Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.* Mwy o fanylion am Ymuno â'r Cynllun Pensiwn - Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

**Cymorth ar gyfer eich lles** – Rydym yn darparu rhaglen cymorth i gyflogeion sy'n cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol 24/7, yn cynnwys cwnsela cymorth emosiynol ac ymgynghorwyr arbenigol. Rydym yn cynnig gwiriad iechyd blynyddol am ddim, swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig, cynllun gofal llygaid am ddim a chymhorthdal ar gyfer pigiadau rhag y ffliw. Rydym wedi ennill y Wobr Arian ar gyfer y Safon Iechyd Corfforaethol

am ein cymorth ar gyfer iechyd a lles. Hefyd, rydym yn darparu cyfle i fanteisio ar Gynlluniau Yswiriant Iechyd trwy *Ofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil.*



**Amrywiaeth a chynhwysiant** – Rydym ni eisiau uchafu potensial pawb sy'n gweithio i ni – ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym wedi creu amgylchedd gwaith, sy'n groesawgar, yn barchus, ac yn ddifyr i bawb, gyda chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol



**Cymorth ar gyfer bywyd teuluol** – amodau hael ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhiant a rennir ac absenoldeb rhiant, a gweithio hyblyg



**Arbedion di-dreth** – Cyfle i fanteisio ar gynllun beicio i'r gwaith a chynllun aberthu cyflog car gwyrdd



**Cymorth ariannol ychwanegol** – yn cynnwys blaenswm cyflog di-log ar gyfer tocynnau teithio tymhorol



**Cynigion a gostyngiadau arbennig** – Cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o ostyngiadau a chynigion arbennig ar gyfer llawer o siopau'r stryd fawr, sinemâu, archfarchnadoedd, gwyliau, tai bwyta, campfeydd ac atyniadau i deuluoedd trwy *Glwb Cymdeithasol y Gwasanaeth Sifil – Chwaraeon a Hamdden*. Cyfle i elwa ar ragor o fuddion a gwasanaethau, yn cynnwys *Cymdeithas Foduro'r Gwasanaeth Sifil, Cymdeithas Yswiriant y Gwasanaeth Sifil* a'r *Elusen ar gyfer Gweision Sifil*

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sef: [www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni#gweithioini](www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni#gweithioini)

# Ymgeisiwch nawr!

**Ffurflen gais:** Lawrlwythwch a llenwch ein ffurflen gais sydd ar gael yma: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni/gweithio-i-estyn/swyddi-gwag

**Dyddiad cau: 10.00pm, Dydd Mawrth 6 Mehefin 2023**

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu anghyflawn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cais yn bodloni'r gofynion y rhoddir manylion amdanynt uchod, a'i fod yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Anfonwch eich cais i: **recriwtio@estyn.llyw.cymru**

Rydym yn argymell y dylech anfon eich cais drwy'r e-bost. Mae oedi wrth dderbyn post ar hyn o bryd a allai olygu bod eich cais yn cyrraedd yn hwyr. Os na allwch anfon eich cais yn electronig, cysylltwch â Shuna Lovering ar 029 2044 6336.

**Trefniadau amgen neu ddogfennau hygyrch:** Os hoffech wneud cais neu gael at y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â Shuna Lovering i drafod eich gofynion

Mae'r ymarfer recriwtio hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil, a chaiff ei reoleiddio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil.

## Proses ddethol a dyddiadau allweddol

Fel rhan o'r broses ddethol, gofynnir i chi lenwi ffurflen gais yn manylu ar eich hanes o ran swyddi a'ch cymwysterau a datganiad o addasrwydd (uchafswm o 750 gair). Bydd eich cais yn esbonio sut byddwch yn bodloni'r medrau, profiad a'r ymddygiad hanfodol ar gyfer y rôl hon, sydd wedi'u hamlinellu ym manyleb yr unigolyn.

Gallwch ddod o hyd i fwy o arweiniad ar lenwi eich cais yma: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni/gweithio-i-estyn/swyddi-gwag

Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith. Ni fydd cais sy'n cael ei gyflwyno'n Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais sy'n cael ei gyflwyno'n Saesneg. Gall eich cais gael ei gyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl y gofyn (yn dibynnu ar iaith fwyafrifol y panel).

Mae'r broses ddethol yn cynnwys:

- **Sifftio ceisiadau:** Bydd y bwrdd dethol yn ystyried pob cais cyflawn. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn eich cais yn bwysig o ran penderfynu a fyddwn yn eich gwahodd i'r cam dethol nesaf. Os byddwn yn cael nifer fawr o geisiadau, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn ei roi i'r panel sy'n llunio'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, efallai na fydd pawb ar y panel yn ystyried eich cais yn llawn.
- **Cyfweliadau:** Bydd ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad yn cael eu hasesu eto yn ôl eu medrau, profiad a'u hymddygiad mewn perthynas â manyleb yr unigolyn. Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, byddwn yn profi eich medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg yn ystod y cyfweliad. Rydym yn defnyddio techneg cyfweld gyfunol, sy'n ein galluogi i ddarganfod mwy amdanoch chi. Rydym yn defnyddio'r fframwaith Proffiliau Llwyddiant. Yn ystod cyfweliad y panel, cewch eich holi am eich profiad a sut rydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl (gan gynnwys ymddygiad). Bydd y cyfweliad yn cynnwys cyflwyniad byr. Cyn y cyfweliad, bydd sesiwn cyfarfod a chyfarch gydag aelodau'r tîm Cyfathrebu, Digwyddiadau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhoi yn y gwahoddiad i'r cyfweliad.

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal wyneb-yn-wyneb yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau pan fyddwn yn eich gwahodd i gyfweliad.

Byddwch yn cael neges e-bost yn cadarnhau canlyniad eich cais ar bob cam dethol. Rydym yn gwerthfawrogi ei fod yn mynnu llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Byddwn yn rhoi adborth llafar ar gais i unrhyw un sy'n cyrraedd y camau asesu a chyfweliad wedi i'r broses ddethol ddod i ben.

Bydd holl gostau mynychu'r asesiadau a'r cyfweliadau ar eich traul eich hun. Ni fyddwn yn talu unrhyw gostau cludiant, llety na chynhaliaeth yn gysylltiedig â recriwtio.

Mae'r amserlen rydym yn gweithio iddi wedi'i chrynhoi isod. Os byddwch yn llwyddiannus wrth lunio'r rhestr fer, disgwylir i chi sicrhau eich bod ar gael ar ddyddiadau'r asesiad/cyfweliad. Efallai na fydd ymgeiswyr nad ydynt ar gael ar gyfer cyfweliad ar y dyddiadau sy'n cael eu cynnig yn cael eu hystyried ar gyfer y rolau hyn.

Os bydd angen i ni newid y dyddiadau hyn, ein nod fydd rhoi cymaint â phosibl o rybudd i chi am ddyddiadau'r cyfweliadau ag y gallwn. Os na allwch ddod i gyfweliad ar y dyddiad a drefnwyd, byddwn yn ceisio ei aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o ran yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | 10.00am, Dydd Mawrth 6 Mehefin 2023 |
| **Sifft** | Dydd Llun, 12 Mehefin 2023 |
| **Cyfweliadau** | Dydd Llun, 19 Mehefin 2023 |

*Mae dyddiadau yn agored i'w newid

**Swyddi gweigion a rhestrau wrth gefn yn y dyfodol:** Os oes modd eich penodi, ond nad oes swydd addas ar gael ar unwaith, efallai y byddwn yn eich ychwanegu at restr wrth gefn. Mae'r rhestr wrth gefn yn ddilys am hyd at ddeuddeg mis o'r dyddiad y byddwn yn cadarnhau canlyniad eich cais. Bydd yr e-bost canlyniad yn cadarnhau a ydych ar restr wrth gefn. Os bydd swydd wag addas yn codi yn ystod y cyfnod hwnnw, efallai y byddwn yn eich argymell ar gyfer apwyntiad. Rydym yn penodi o'r rhestr wrth gefn yn nhrefn teilyngdod.

## Ymholiadau Pellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymarfer recriwtio hwn nad ydym wedi eu hateb yn y pecyn hwn, cysylltwch â Shuna Lovering, ar 029 2044 6336, neu recriwtio@estyn.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd oedi wrth i ni ymateb.